



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd

24 Medi 2026

Fersiwn 4 (Wedi'i Gymeradwyo)

Cyflwyniad

Iechyd Cyhoeddus Cymru yw Sefydliad Iechyd y Cyhoedd Cenedlaethol Cymru. Ein pwrpas yw 'gweithio gyda'n gilydd ar gyfer Cymru iachach'. Rydym yn bodoli i helpu pawb yng Nghymru i fyw bywydau hirach ac iachach. Gyda'n partneriaid, ein nod yw cynyddu disgwyliad oes iach, gwella iechyd a llesiant, a lleihau anghydraddoldebau i bawb yng Nghymru, yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Diben y ddogfen hon yw crynhoi sut mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyflawni ac yn cynnal llywodraethu corfforaethol da i gefnogi cyflawniad y blaenoriaethau strategol a amlinellir yn ein [Strategaeth Hirdymor](#), gwella iechyd y boblogaeth, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a darparu gwasanaethau iechyd y cyhoedd diogel, effeithiol ac o ansawdd uchel.

Mae'n ofynnol i holl sefydliadau GIG Cymru ddangos llywodraethu da a sicrhau eu bod yn gweithredu systemau a phrosesau cadarn i gefnogi a chyflawni hyn, tra hefyd yn cyflawni eu nodau a'u hamcanion strategol. Mae angen i fyrddau iechyd fod yn hyderus bod systemau a phrosesau'n gweithredu mewn ffyrdd sy'n effeithiol ac sy'n llywio'r gwaith o gyflawni amcanion wrth reoli risgiau. Mae'n hanfodol bod Byrddau'r GIG yn sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn, atebol a thryloyw ar waith ym mhob rhan o'r system.

Mae'r Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (FfSB) hwn yn disgrifio sut mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cysylltu strategaeth, risg, cyflawni a sicrwydd. Mae'n nodi'r swyddogaethau, y galluogwyr, y llwybrau sicrwydd, y trefniadau llywodraethu integredig a'r canllawiau gweithredu sy'n cefnogi llywodraethu da ar draws y sefydliad.

Fel dogfen fyw, bydd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn cael ei hadolygu a'i diweddarau'n rheolaidd i ddangos sut mae sicrwydd yn cael ei gynhyrchu, ei oruchwylio, ei graffu a'i uwchgyfeirio trwy drefniadau gweithredol, Pwyllgorau'r Bwrdd a'r Bwrdd. Mae'n mapio Blaenoriaethau Strategol a Risgiau Strategol i'r ffynonellau sicrwydd sy'n dangos a yw rheolaethau'n gweithredu'n effeithiol ac a oes angen camau gweithredu pellach.

Ein Fframwaith Llywodraethu

Mae ein trefniadau llywodraethu yn ymgorffori pob agwedd ar ein busnes a sut rydym yn gweithredu. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Trefniadau Llywodraethu'r Bwrdd a'i Bwyllgorau
- Llywodraethu Gwybodaeth
- Llywodraethu Clinigol
- Llywodraethu Ymchwil
- Llywodraethu Ariannol
- Llywodraethu Pobl/y Gweithlu
- Cyflenwi Gwasanaethau a Threfniadau Rheoli Perfformiad
- Rheoli Gwybodaeth ac Asedau
- Llywodraethu Amgylcheddol/Hinsawdd.

Rydym wedi mabwysiadu dull integredig o lywodraethu.

Mae ein dull integredig o lywodraethu yn dwyn ynghyd strategaeth, risg, perfformiad, ansawdd, cyllid, y gweithlu, gwybodaeth a threfniadau cyflawni fel y gellir ystyried sicrwydd yn ei gyfanrwydd. Mae hyn yn helpu'r Bwrdd a'i Bwyllgorau i ddeall a yw amcanion yn cael eu cyflawni, a yw risgiau'n cael eu rheoli o fewn parodrwydd i dderbyn risg, ac a oes angen uwchgyfeirio neu gymryd camau pellach ar unrhyw fylchau mewn rheolaeth neu sicrwydd.

Ein Bwrdd a'n Tîm Gweithredol Busnes

Mae Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn atebol am osod cyfeiriad strategol y sefydliad a sicrwydd mewn perthynas â llywodraethu, rheoli risg, a rheolaethau mewnol yn y Sefydliad. Mae Prif Weithredwr (a Swyddog Atebol) y sefydliad yn gyfrifol am gynnal strwythurau a gweithdrefnau llywodraethu priodol.

Mae'r Bwrdd yn gweithredu fel corff corfforaethol sy'n gwneud penderfyniadau, gyda Chyfarwyddwyr Gweithredol a Chyfarwyddwyr Anweithredol yn aelodau llawn a chyfartal ac yn rhannu cyfrifoldeb corfforaethol am holl benderfyniadau'r Bwrdd fel Bwrdd unedol. Yn ogystal â'u rôl fel Aelodau Bwrdd, mae Cyfarwyddwyr Gweithredol hefyd yn gyfrifol am gyflawni swyddogaethau corfforaethol ac iechyd y cyhoedd Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Yn benodol, mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb am;

- ❖ Osod y cyfeiriad strategol
- ❖ Gosod y fframwaith llywodraethu
- ❖ Pennu diwylliant a datblygiad sefydliadol
- ❖ Llywio'r parodrwydd i dderbyn risg a goruchwyllo risgiau strategol
- ❖ Datblygu perthnasoedd cryf gyda rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol
- ❖ Cyflawni nodau ac amcanion Iechyd Cyhoeddus Cymru yn llwyddiannus.

Ac eithrio pwerau a gadwyd yn ôl i'r Bwrdd a'i Bwyllgorau (fel yr amlinellir yn y Cynllun


Dirprwyo) mae'r Bwrdd yn dirprwyo awdurdod ar gyfer cyflawni gweithredol a phenderfyniadau gweithredol i'w Brif Weithredwr.

Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu model llywodraethu 7S McKinsey fel rhan o'i raglen barhaus o berfformiad uchel ar gyfer Datblygu'r Bwrdd. Mae hyn yn ffurfio elfen graidd o'n Rhaglen Datblygu Bwrdd wrth i ni ymdrechu am berfformiad uchel, gan ddefnyddio'r model i nodi meysydd i'w gwella ac arferion da.

Mae'r Prif Weithredwr wedi sefydlu ac yn cydnabod y Tîm Gweithredol Busnes fel y tîm arwain gweithredol allweddol ar gyfer gweithredu cyfrifoldeb dirprwyedig ar y cyd. Mae hyn yn ychwanegol at yr atebolrwyddau a'r cyfrifoldebau unigol dirprwyedig sydd gan bob Cyfarwyddwr yn y Tîm Gweithredol o fewn eu portffolios priodol.

Mae'r Tîm Gweithredol Busnes yn cynnwys y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr (y mae rhai ohonynt yn Gyfarwyddwyr Gweithredol) ac mae'n gyfrifol am arweinyddiaeth a rheolaeth weithredol y sefydliad. Mae'r Tîm Gweithredol Busnes yn cyfarfod o leiaf unwaith yr wythnos. Cynhelir cyfarfodydd wythnosol bob yn ail rhwng cyfarfodydd y Tîm Gweithredol Busnes, fel y prif gyfarfod sicrwydd corfforaethol a chyflawni, a chyfarfodydd Strategol y Tîm Gweithredol i drafod eitemau strategol ac eitemau sy'n ymwneud â'r sefydliad cyfan.

Mae'r Tîm Gweithredol Busnes wedi sefydlu nifer o grwpiau adrodd i gwmpasu meysydd allweddol o'r busnes:



Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu [Rheolau'r Bwrdd](#), sy'n gosod yr ymddygiadau a ddisgwylir gan holl aelodau'r Bwrdd a'r rhai sy'n bresennol, wrth i'r Bwrdd/Pwyllgorau gyflawni eu rôl stiwardiaeth a chymryd yr awenau wrth hyrwyddo gwerthoedd a safonau ymddygiad y Sefydliad a'i staff.

Mae [Cynllun Gwaith y Bwrdd](#) yn sicrhau bod y Bwrdd yn cyflawni ei gyfrifoldebau mewn modd cynlluniedig. Mae'n cynorthwyo gyda chynllunio agenda ac yn cael ei ddiweddarau yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod y Bwrdd yn ystyried unrhyw eitemau ychwanegol sy'n codi yn ystod y flwyddyn.

Mae'r bwrdd wedi ymrwymo i weithredu yn y ffordd fwyaf tryloyw, agored ac atebol ag sy'n bosibl. Mae'r [Protocol ar gyfer Neilltuo Materion i Fwrdd \(neu Bwyllgor\) Preifat](#) yn nodi'r rhesymau gwahanol sy'n berthnasol i ddeunydd a ystyrir mewn sesiynau preifat.

Ein Pwyllgorau Bwrdd

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi rhoi'r pum Pwyllgor Bwrdd a ganlyn ar waith:

- ❖ Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol
- ❖ Y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd
- ❖ Y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol
- ❖ Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella
- ❖ Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth a Thelerau Gwasanaeth


Yn unol â'n [Rheolau Sefydlog a'n Cynllun Dirprwyo](#), mae gan bob Pwyllgor Bwrdd rôl ddiffiniedig o fewn y system ehangach o lywodraethu a sicrwydd. Mae pwyllgorau'n cynnal craffu manwl ar ran y Bwrdd drwy brofi tystiolaeth, adolygu rheolaethau, monitro risgiau dirprwyedig a chyfeirio materion sylweddol, bylchau neu risgiau sy'n dod i'r amlwg at y Bwrdd.

Mae hyn yn rhoi capasiti ac arbenigedd ychwanegol i'r Bwrdd ar gyfer craffu, gan sicrhau bod camau cyflawni, risg, rheolaethau a gwella yn cael eu hystyried ar y lefel gywir cyn i faterion gael eu hadrodd neu eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd.

Mae gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol rôl benodol i roi barn annibynnol i'r Bwrdd a'r Swyddog Atebol ar briodoldeb a digonolrwydd rheoli risg, yr amgylchedd rheoli mewnol, a threfniadau llywodraethu a sicrwydd.

Yn ogystal, mae'r Bwrdd wedi sefydlu Is-grŵp ar gyfer yr Ymchwiliad Cyhoeddus i COVID-19 y mae wedi dirprwyo iddo'r swyddogaeth o oruchwyllo a chymeradwyo rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn ymateb i Ymchwiliad Cyhoeddus i COVID-19 y DU.

Mae'r diagram isod yn dangos cylch gorchwyl pob un o'r Pwyllgorau a'r Is-grŵp ar gyfer yr Ymchwiliad Cyhoeddus i Covid-19.




Mae pob pwyllgor:

- ❖ Yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Anweithredol ac yn cael ei gefnogi gan Arweinydd Gweithredol.
- ❖ Yn gosod a chytuno ar [raglen waith flynyddol](#) ar gyfer pob Pwyllgor ac yn adrodd ar hynny i'r Bwrdd er sicrwydd.
- ❖ Yn destun [cylch gorchwyl](#), a adolygir yn flynyddol, sy'n manylu ar ei gyfrifoldebau, ei ddirprwyaeth a'i gylch gwaith.
- ❖ Pennir agenda ar gyfer pob cyfarfod gan Gadeirydd y Pwyllgor mewn trafodaeth â'r Arweinydd Gweithredol, a gyda chefnogaeth Ysgrifennydd y Bwrdd.
- ❖ Mae [agenda, cofnodion ac adroddiadau](#) pob cyfarfod yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan yn unol â'n Rheolau Sefydlog.
- ❖ Yn cynhyrchu adroddiad cryno o bob cyfarfod, a gyflwynir i'r Bwrdd fel rhan o Adroddiad Cyfansawdd y Cadeirydd.
- ❖ Yn cynnal adolygiad perfformiad blynyddol.
- ❖ Yn cynhyrchu [Adroddiad Blynyddol](#), a gyflwynir i'r Bwrdd i gael sicrwydd bod y Pwyllgor yn bodloni ei gylch gorchwyl.

Amcanion Strategol

Mae ein Cynllun Strategol (Cynllun Tymor Canolig Integredig) yn nodi'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd dros y tair blynedd nesaf i gyflawni ein strategaeth. Mae hyn yn canolbwyntio ar gyflawni ein chwe blaenoriaeth strategol.

Mae ein Cynllun Strategol yn nodi ystod o weithgarwch newid y byddwn yn ei wneud ar draws pob un o'n blaenoriaethau strategol a'n galluogwyr wrth i ni ddechrau gweithredu ein strategaeth newydd. Byddwn yn sicrhau bod ein hagenda newid yn cael ei hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau ei bod yn cyflawni'r buddion a fwriadwyd ac yn parhau i fod yn gyraeddadwy yng ngoleuni newidiadau yn ystod y flwyddyn.




Risgiau Strategol

Mae ein Cofrestr Risgiau Strategol yn nodi risgiau i gyflawni ein nodau a'n Hamcanion Strategol. Fel rhan allweddol o Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, mae'r Gofrestr Risgiau Strategol yn "offeryn byw" y mae'r Bwrdd yn berchen arni, yn ei hadolygu, ei diweddarau a'i defnyddio i oruchwylio, craffu a mynd i'r afael â risgiau strategol.

Model Llywodraethu Da

Mae Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn mabwysiadu'r model llywodraethu da canlynol¹.

Mae'r model hwn yn adeiladu ar yr Egwyddorion Llywodraethu Da sy'n disgrifio sut beth yw llywodraethu da ac yn rhoi canllawiau manylach i Fyrddau'r GIG ar swyddogaethau a galluogwyr llywodraethu da. Mae'n darparu diffiniadau o'r fframwaith sicrwydd, y system lywodraethu integredig a'r dogfennau Polisi gweithredol sydd hefyd angen bod yn eu lle i gefnogi llywodraethu da.



Esbonnir pob adran isod:

¹ Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi datblygu'r model hwn gan gyfeirio at y Glasbriant ar gyfer Llywodraethu Da yn GIG yr Alban.

Swyddogaethau: Prif swyddogaethau'r Bwrdd

Pennu Cyfeiriad Strategol

Mae'r Bwrdd yn gosod cyfeiriad strategol y Sefydliad drwy bennu ei bwrpas, ei nodau, ei werthoedd a'i Amcanion Strategol, a thrwy gymeradwyo'r cynlluniau, yr adnoddau a'r buddsoddiad sydd eu hangen i'w cyflawni. Wrth wneud hynny, mae'n ceisio sicrwydd bod cynlluniau cyflawni yn cael eu cefnogi gan fonitro priodol, mesurau effaith, asesiad risg, asesiad cydraddoldeb, cynlluniau cyfathrebu, cydymffurfiaeth statudol a chapasiti'r gweithlu. Wrth i'r ddyletswydd statudol Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ddod i rym, bydd y Bwrdd yn ceisio sicrwydd bod penderfyniadau, cynlluniau a rhaglenni strategol perthnasol yn cael eu cefnogi gan drefniadau Asesu Effaith ar Iechyd cymesur, ochr yn ochr â gofynion asesu cydraddoldeb, economaidd-gymdeithasol, y Gymraeg, Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac ansawdd presennol.

Cyflawni nodau ac amcanion

Mae'r Bwrdd yn adolygu'r ddarpariaeth yn rheolaidd yn erbyn ei nodau ac amcanion, gan gynnwys cynnydd, gwerth am arian, cydymffurfiaeth reoleiddiol, ansawdd a gwelliant, a gwybodaeth am berfformiad a gwybodaeth ariannol sy'n dangos a yw gwasanaethau'n ddiogel, yn effeithiol, yn canolbwyntio ar unigolion, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy.

Llywio'r parodrwydd i dderbyn risg a goruchwyllo risgiau strategol

Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod rheoli risg yn rhan annatod o lywodraethu da, cynllunio strategol, blaenoriaethu a chyflawni amcanion corfforaethol.

Mae'r Bwrdd yn sicrhau rheoli risg effeithiol drwy osod parodrwydd i dderbyn risg, cymeradwyo ac adolygu'r Gofrestr Risg Strategol, ystyried risgiau cyfredol a risgiau sy'n dod i'r amlwg, a goruchwyllo'r systemau a ddefnyddir i asesu rheolaethau, lliniariadau a sicrwydd.

Mae'r [Protocol Risg](#) yn amlinellu'r trefniadau llywodraethu sy'n ymwneud â rheoli a goruchwyllo Risgiau Strategol a Chorfforaethol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru ar lefel Bwrdd, Pwyllgor a Gweithredol. Mae hefyd yn amlinellu'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd am weithrediad a throsolwg y system rheoli risg.

Mae'r Gofrestr Risgiau Strategol yn ddogfen fyw sydd i'w chael [yma](#).

Gosod y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r Bwrdd yn gosod y fframwaith llywodraethu ar gyfer y Sefydliad, gan gynnwys y fframwaith sicrwydd, y system lywodraethu integredig, polisiau gweithredu, gweithdrefnau a dirprwyathau sy'n cefnogi llywodraethu da a chyflawniad effeithiol.

Datblygu perthnasoedd cryf gyda rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol

Mae'r Bwrdd yn sicrhau ymgysylltiad ystyrllon â rhanddeiliaid drwy nodi buddiannau allweddol, cynnwys rhanddeiliaid yn y broses o ddatblygu cynlluniau a pholisïau, cyfleu ei bwrpas, ei nodau a'i flaenoriaethau'n glir, ystyried safbwyntiau wrth ddylunio gwasanaethau a chydymffurfio â dyletswyddau statudol i ymgysylltu.

Pennu diwylliant a datblygiad sefydliadol

Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod diwylliant yn ganolog i lwyddiant hirdymor ac yn gosod y naws ar gyfer y gwerthoedd, yr ymddygiadau a'r safonau a ddisgwylir ar draws y Sefydliad.

Drwy [Rheolau'r Bwrdd](#) cymeradwy, mae'r Bwrdd yn hyrwyddo arweinyddiaeth ddibynadwy, gwneud penderfyniadau adeiladol, uniondeb, cynhwysiant ac ymddygiadau sy'n enghreifftio llywodraethu da.

Galluogwyr: Hwyluswyr Llywodraethu Da

Amrywiaeth, Sgiliau a Phrofiad

Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod amrywiaeth o ran cefndir, sgiliau, profiad a meddwl yn cryfhau trafodaeth, gwneud penderfyniadau a herio. Mae'r Cadeirydd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Uned Cyrff Cyhoeddus i sicrhau bod gan y Bwrdd y gallu sydd ei angen arno drwy recriwtio, sefydlu, hyfforddi a datblygiad parhaus.

Mae profiad cyfunol Aelodau'r Bwrdd yn cefnogi llywodraethu effeithiol ar draws cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ymchwil ac arloesedd, data a digidol, ymgysylltu â rhanddeiliaid, gweithio mewn partneriaeth a chysylltiadau academiaidd.

Rolau a Chyfrifoldebau

Mae llywodraethu da yn dibynnu ar rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd clir ar draws y Bwrdd a'r rhai sy'n cefnogi ei drefniadau llywodraethu.

Mae Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnwys Cadeirydd, Is-gadeirydd, saith Cyfarwyddwr Anweithredol a chwe Chyfarwyddwr Gweithredol, sy'n cynnwys y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Cyllid, yn unol â Rheoliadau Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009 a gwelliannau dilynol.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys:

- ❖ **Cadeirydd:** yn arwain ac yn datblygu'r Bwrdd, yn gosod y naws ar gyfer trafodaeth a gwneud penderfyniadau effeithiol, yn cefnogi datblygiad Cyfarwyddwyr Anweithredol, yn cynrychioli'r Sefydliad yn allanol ac yn atebol i'r Gweinidog.
- ❖ **Prif Weithredwr:** yn gweithredu fel Swyddog Atebol, yn arwain y Sefydliad, yn rheoli arian cyhoeddus yn briodol ac yn sicrhau bod strategaethau, cynlluniau a gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol.
- ❖ **Cyfarwyddwyr Gweithredol:** yn rhoi cyngor arbenigol, yn arwain y gwaith cyflawni o fewn eu portffolios, yn rheoli perfformiad a risgiau, yn cefnogi'r gweithlu ac yn cyfrannu fel Aelodau llawn o'r Bwrdd.
- ❖ **Cyfarwyddwyr Anweithredol:** yn darparu craffu, herio a chefnogi annibynnol, yn dod â safbwynt allanol, yn cynnal safonau uniondeb ac yn cyfrannu at gyfrifoldeb cyfunol y Bwrdd.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithredu fel Bwrdd unedol. Mae Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol yn aelodau llawn a chyfartal, gan rannu cyfrifoldeb ac atebolrwydd ar y cyd am benderfyniadau'r Bwrdd.

Mae Llywodraeth Cymru yn gosod y fframwaith deddfwriaethol, polisi a strategol ar gyfer GIG Cymru ac yn diffinio rolau a swyddogaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r Bwrdd yn gosod cyfeiriad strategol, yn dwyn y Sefydliad i gyfrif, yn rheoli risg, yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ac yn dylanwadu ar ddiwylliant.

Mae'r Is-gadeirydd yn dirprwyo dros y Cadeirydd, yn darparu llwybr amgen i Aelodau'r

Bwrdd godi pryderon, yn cefnogi meysydd gwaith penodol ac yn arwain yr asesiad 360 gradd blynyddol o'r Cadeirydd.

Ysgrifennydd y Bwrdd

- ❖ Yn cyngori ar lywodraethu, yn cefnogi cydymffurfiaeth gyfreithiol a statudol, yn sicrhau trefniadau Bwrdd a Phwyllgor effeithiol, ac yn arwain gwelliant parhaus mewn llywodraethu.

Diwylliant

Swyddogaeth y Bwrdd yw gosod naws a diwylliant y sefydliad; rhaid i'r Bwrdd weithredu'n foesol, yn foesegol ac yn deg os yw am sicrhau llywodraethu da.

Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu [Rheolau'r Bwrdd](#) i gefnogi hyn.

Dull Cyflwyno

System Llywodraethu Integredig

Mae'r System Llywodraethu Integredig yn dwyn ynghyd strategaeth, risg, perfformiad, ansawdd, cyllid, y gweithlu, gwybodaeth a chyflawni fel bod sicrwydd yn cael ei ystyried yn gydlynol. Mae'n cefnogi llinell welediad glir o gyflawniad gweithredol i oruchwyliaeth weithredol, craffu ar y Pwyllgor a sicrwydd y Bwrdd.

Mae'r model yn disgrifio'r elfennau craidd sydd eu hangen ar y Sefydliad i weithredu'n effeithiol, gyda diwylliant yn darparu'r ffordd y mae'r elfennau hynny'n cydweithio'n ymarferol.


Ers i'r model gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Chwefror 2021 a'r Cynllun Gweithredu gael ei gymeradwyo gan y Tîm Gweithredol Busnes ym mis Mawrth 2022, mae mentrau Sefydliadol pellach wedi cryfhau llywodraethu integredig.

Mae Ansawdd fel Strategaeth Sefydliadol yn cefnogi hyn drwy ddarparu model gweithredu ar gyfer ansawdd, gwelliant ac arloesedd.

Mae'r dull integredig yn gwella:

- ❖ Cysylltiadau cryfach rhwng gwybodaeth glinigol, weithredol, ariannol, gweithlu, ansawdd a risg.
- ❖ Aliniad cliriach â gofynion statudol, rheoleiddiol a pholisi a Blaenoriaethau Strategol.
- ❖ Gwell dealltwriaeth gan staff o'u rôl mewn llywodraethu integredig.
- ❖ Llwybrau uwchgyfeirio cliriach, gan gynnwys pa wybodaeth sydd ei hangen, pwy sy'n ei derbyn a sut mae'n cefnogi sicrwydd.

Model Llywodraethu Integredig:



Dogfennau Polisi a Llywodraethu

Mae'r disgrifiad manwl o'n trefniadau llywodraethu a'r canllawiau ar weithredu'r trefniadau hyn wedi'u cynnwys mewn portffolio o ddogfennau a gedwir ac a gynhelir gan Ysgrifennydd y Bwrdd. Mae'n cynnwys [Rheolau Sefydlog](#), [Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog](#) a'r Cynlluniau Dirprwyo sy'n rhoi eu prif ganllawiau gweithredu i'n uwch arweinwyr a rheolwyr.

Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, Rheolau Sefydlog a'r Cynllun Dirprwyo

Polisiâu Corfforaethol, gweithdrefnau a dogfennau rheoli ysgrifenedig eraill	Protocol Risg a Chynllun Aeddfedrwydd Risg	Dogfennau Llywodraethu Pwyllgor •Cylch Gorchwyl •Adroddiadau Blynnyddol •Cynlluniau Gwaith •Adroddiad Cyfansawdd i'r Bwrdd	Protocol Archwilio	Fframwaith Adrodd ar Berfformiad	Polisi Safonau Ymddygiad
--	--	---	--------------------	----------------------------------	--------------------------

Fframwaith Sicrwydd

Mae'r Fframwaith Sicrwydd yn esbonio sut mae'r Bwrdd yn derbyn, yn profi ac yn defnyddio sicrwydd i gefnogi llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol effeithiol. Mae'n cysylltu amcanion strategol, risgiau, cynlluniau gwaith a thystiolaeth weithredol â goruchwyliaeth weithredol, craffu ar y Pwyllgor a barn sicrwydd y Bwrdd.

Dylid ei ddefnyddio gyda chynlluniau gwaith y Bwrdd a'r Pwyllgorau i gadarnhau bod sicrwydd wedi'i gynllunio, yn gymesur ac yn cyd-fynd â Blaenoriaethau Strategol, dyletswyddau statudol a risgiau allweddol, ac i nodi bylchau mewn tystiolaeth, dyblygu neu faterion sydd angen atgyfeirio, uwchgyfeirio neu atebolrwydd allanol.

Cynhyrchir sicrwydd drwy reolaeth weithredol, caiff ei adolygu drwy oruchwyliaeth weithredol, caiff ei brofi gan Bwyllgorau a'i uwchgyfeirio i'r Bwrdd lle bo angen. Mae hyn yn galluogi'r Bwrdd i farnu a yw'r sicrwydd yn ddigonol, a yw'r risgiau o fewn y parodrwydd, a yw'r rheolaethau'n effeithiol ac a oes angen cymryd camau pellach.

Mae'r Fframwaith Sicrwydd yn cefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, sy'n crynhoi sut mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos llywodraethu da yn yr [Adroddiad Blynyddol](#).

Mae'r Fframwaith Sicrwydd wedi'i ategu gan gynlluniau gwaith y Bwrdd a'r Pwyllgorau, sy'n nodi cylch busnes a phrif ffynonellau sicrwydd. Mae'r Cynlluniau Gwaith i'w gweld yma.

Mae'r Adroddiad Perfformiad Integredig a'r Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad yn darparu data allweddol i gefnogi sicrwydd y Pwyllgor ar draws meysydd llywodraethu ac atebolrwydd.

Sicrwydd Pwyllgor

Mae'r adran ganlynol yn egluro sut mae Pwyllgorau'n cefnogi'r Bwrdd drwy brofi sicrwydd ar ei ran. Dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r diagram llif sicrwydd, y model cyfrifoldeb a'r map cwrpas: mae'r diagram yn dangos sut mae sicrwydd yn symud drwy'r system, mae'r model cyfrifoldeb yn dangos ble mae atebolrwydd, ac mae'r map cwrpas yn dangos y prif feysydd a gwmpesir gan y Bwrdd a'r Pwyllgorau.

Sicrwydd a thawelwch meddwl

Mae sicrwydd yn fwy na thawelu meddwl. Mae sicrwydd yn rhoi cysur bod gweithgaredd yn digwydd; mae sicrwydd yn gofyn am dystiolaeth ddigonol, berthnasol a dibynadwy bod rheolaethau'n gweithio, bod risgiau'n cael eu rheoli, bod amcanion yn cael eu cyflawni a bod camau gwella yn digwydd.

Mae pwyllgorau'n trosi tawelwch meddwl yn sicrwydd drwy adolygu tystiolaeth, profi cyflawnrwydd adroddiadau, herio risgiau a rheolaethau, triongli gwybodaeth o wahanol ffynonellau a nodi bylchau sydd angen rhagor o wybodaeth, camau unioni neu uwchgyfeirio.

Mae'r Bwrdd yn defnyddio sicrwydd y Pwyllgor i gefnogi ei gyfrifoldebau dros strategaeth, cyflawni, risg a rheolaeth. Lle nad yw Pwyllgorau'n cael sicrwydd digonol, neu lle mae tystiolaeth yn anghyflawn neu y tu allan i'w cylch gwaith, dylid uwchgyfeirio'r mater at y Bwrdd i gael cyfarwyddyd.

Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos y gwahaniaeth rhwng tawelwch meddwl a sicrwydd yng ngwaith y Pwyllgorau a'r Bwrdd:

Maes	Tawelwch Meddwl	Sicrwydd
Rheoli risg	Dywedir wrth y Pwyllgor fod risg yn cael ei rheoli.	Mae'r Pwyllgor yn derbyn sgoriau risg, rheolaethau, camau gweithredu, perchnogion, dyddiadau cau, symudiad risg a thystiolaeth o liniaru.
Perfformiad a Chyflenwi	Hysbysir y Bwrdd fod y ddarpariaeth yn mynd rhagddi.	Mae'r Bwrdd yn derbyn data tueddiadau, adrodd ar eithriadau, dadansoddiad amrywiant, camau unioni ac amserlenni adfer.
Ansawdd a diogelwch	Hysbysir y Pwyllgor fod trefniadau ar waith.	Mae'r Pwyllgor yn derbyn dangosyddion, themâu digwyddiadau, dysgu, cynlluniau gwella a thystiolaeth bod camau gweithredu yn gwella canlyniadau.

Gwirio tystiolaeth sicrwydd


Mae pwyllgorau'n gwirio tystiolaeth sicrwydd drwy gymhwyso craffu a her strwythuredig i'r adroddiadau, y data a'r diweddariadau a gyflwynir iddynt.

Wrth wneud hynny, mae Pwyllgorau'n ystyried a yw tystiolaeth:

- ❖ Yn ddigonol, dibynadwy, perthnasol a chyflawn.
- ❖ Wedi'i alinio â Chylch Gorchwyl, cyfrifoldebau dirprwyedig a chynllun gwaith y Pwyllgor.
- ❖ Yn gysylltiedig â'r Flaenoriaeth Strategol, y Risg Strategol neu'r Risg Gorfforaethol berthnasol.
- ❖ Y glir o ran rheolaethau, lliniariadau, camau gweithredu, perchnogion, amserlenni a chanlyniadau.
- ❖ Wedi'i gefnogi gan ddata, tueddiadau, meincnodi, adrodd ar eithriadau neu adolygiad annibynnol lle bo'n briodol.
- ❖ Yn dryloyw ynghylch bylchau, cyfyngiadau, risgiau y tu hwnt i barodrwydd neu sicrwydd anghyflawn.
- ❖ Yn gallu dangos tystiolaeth o gynnydd, cau ac effaith camau gweithredu blaenorol.

Dylai pwyllgorau driongli tystiolaeth ar draws ffynonellau perthnasol, gan gynnwys canfyddiadau archwiliadau, adroddiadau perfformiad, gwybodaeth am ansawdd a diogelwch, data am y gweithlu, adroddiadau cyllid, adroddiadau risg, adolygiadau rheoleiddiol ac asesiadau allanol. Pan fo'r dystiolaeth yn anghyflawn, yn anghyson neu heb fod yn darparu sicrwydd digonol, dylai'r Pwyllgor ofyn am ragor o wybodaeth, comisiynu sicrwydd ychwanegol, cyfeirio'r mater at Bwyllgor arall lle bo'n briodol, neu uwchgyfeirio'r mater at y Bwrdd.

Ffigur 1: Llif sicrwydd o dystiolaeth i farn y Bwrdd



Uwchgyfeirio Traws-bwyllgor


Bydd rhai meysydd sicrwydd yn cwmpasu mwy nag un Pwyllgor, yn enwedig lle mae risgiau, rheolaethau neu gamau gwella yn torri ar draws ansawdd, pobl, cyllid, perfformiad, llywodraethu, gwybodaeth, ymchwil neu gyfrifoldebau digidol.

Pan fydd hyn yn digwydd, bydd Cadeirydd y Pwyllgor perthnasol, yr Arweinydd Gweithredol ac Ysgrifennydd y Bwrdd yn cytuno ar y llwybr mwyaf priodol ar gyfer craffu ac uwchgyfeirio, ac yn sicrhau bod perchnogaeth yn glir a bod dyblygu rhwng cynlluniau gwaith y Pwyllgor yn cael ei osgoi.

- ❖ **Atgyfeirio rhwng Pwyllgorau:** pan fo eitem a ystyrir gan un Pwyllgor yn effeithio ar gylch gwaith Pwyllgor arall, dylid atgyfeirio'r mater drwy adroddiad, cofnodion, cofnod gweithredu neu ddiweddariad cynllun gwaith y cytunwyd arno gan Gadeirydd y Pwyllgor perthnasol.
- ❖ **Uwchgyfeirio i'r Bwrdd:** dylid uwchgyfeirio materion arwyddocaol, bylchau sicrwydd, risgiau y tu hwnt i'r parodrwydd, newidiadau perthnasol yn y proffil risg, camau gweithredu hwyr neu faterion sydd angen cyfeiriad strategol i'r Bwrdd drwy Adroddiad Cyfansawdd y Cadeirydd, adrodd ar risg neu adroddiad penodol i'r Bwrdd.
- ❖ **Olrhain a chau:** caiff materion traws-bwyllgor eu holrhain drwy'r cofnod gweithredu neu'r cynllun gwaith perthnasol nes bod y Pwyllgor yn fodlon bod sicrwydd priodol wedi'i dderbyn, bod camau gweithredu wedi'u cwblhau, neu fod y mater wedi'i uwchgyfeirio i'r Bwrdd ei ystyried.

Mae'r dull hwn yn sicrhau bod y Bwrdd yn cael golwg gydlynol ar faterion trawsbynciol ac nad yw sicrwydd yn dameidiog ar draws cylchoedd gwaith y Pwyllgor.

Ffigur 2: Llwybr uwchgyfeirio traws-bwyllgor



Mae'r diagram llif sicrwydd yn dangos sut mae sicrwydd yn symud drwy'r system. Mae'r map cwmpas isod yn dangos yr ardaloedd a gwmpesir gan y Bwrdd a'r Pwyllgorau.

Cyfrifoldebau sicrwydd: Wedi'i gadw i'r Bwrdd, sicrwydd a rennir a chraffu dan arweiniad Pwyllgor

Mae'r model hwn yn egluro ar ba lefel y mae'r cyfrifoldeb sicrwydd: materion a gedwir yn ôl i'r Bwrdd, meysydd lle mae sicrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgor yn cael ei rannu, a materion lle bo'r Pwyllgorau'n cynnal craffu manwl ar ran y Bwrdd. Mae'r map parthau sicrwydd isod yn dangos sut mae'r cyfrifoldebau hynny wedi'u dosbarthu ar draws y Bwrdd a phob Pwyllgor, tra bod y map cwmpas manwl yn darparu'r ffynonellau sicrwydd ategol a'r llwybrau uwchgyfeirio.

Penderfynu ar y lefel cyfrifoldeb

A yw'r mater wedi'i gadw i'r Bwrdd, wedi'i rannu â Phwyllgorau, neu a yw'n cael ei arwain gan Bwyllgor?



Nodi'r llwybr sicrwydd

Pa lwybr sy'n berthnasol: Bwrdd, ACGC, QSIC, PODC, KRIC neu draws-bwyllgor?



Gwirio tystiolaeth ac uwchgyfeirio

Defnyddio'r map cwmpas i gadarnhau ffynonellau, cylch adrodd, bylchau a llwybr uwchgyfeirio.

Cipolwg ar gyfrifoldebau sicrwydd

Mae'r map un dudalen hwn yn crynhoi'r prif feysydd sicrwydd y mae'r Bwrdd a'i Bwyllgorau yn eu cynnwys. Mae'n rhoi cipolwg i'w gynnwys yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, gyda'r map sicrwydd manwl wedi'i gynnwys fel atodiad ar gyfer ffynonellau sicrwydd ategol, llwybrau adrodd a manylion uwchgyfeirio.

Wedi'i gadw i'r Bwrdd	Sicrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgor	Craffu dan arweiniad pwyllgor
Beth mae hyn yn ei olygu? Materion y mae'n rhaid i'r Bwrdd eu cymeradwyo, eu gosod neu gadw goruchwyliaeth uniongyrchol drostynt.	Beth mae hyn yn ei olygu? Meysydd lle mae'r Bwrdd yn cadw cyfrifoldeb cyffredinol, ond mae Pwyllgorau'n darparu craffu a sicrwydd manwl.	Beth mae hyn yn ei olygu? Meysydd sy'n cael eu craffu'n fanwl yn bennaf gan Bwyllgorau, gan eu cyfeirio at y Bwrdd lle bo angen.
Parthau sicrwydd pendant Strategaeth a chyflawni • Trefniadau comisiynu • Atebolrwydd allanol ac adrodd blynyddol	Parthau sicrwydd pendant Risg strategol a chorfforaethol • Llywodraethu ariannol • Perfformiad a chyflenwi gwasanaethau • Pobl, y gweithlu a diwylliant • Llywodraethu corfforaethol a rheolaeth fewnol • Dyletswyddau statudol a chydymffurfiaeth • Effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgor • Trefniadau cynnal • Llywodraethu hinsawdd	Parthau sicrwydd pendant Ansawdd, diogelwch a gwelliant • Llywodraethu clinigol • Llywodraethu gwybodaeth • Llywodraethu ymchwil • Data a digidol • Seiberddiogelwch • Archwilio a sicrwydd annibynnol
Rôl y bwrdd Gosod cyfeiriad, cymeradwyo fframweithiau allweddol a dwyn y Sefydliad i gyfrif.	Rôl a rennir Mae'r Bwrdd yn derbyn sicrwydd; mae pwyllgorau'n profi, yn triogli, yn herio ac yn uwchgyfeirio materion.	Rôl y Pwyllgor Craffu manwl, profi tystiolaeth, herio ac adrodd ar sicrwydd.
Allbwn i'r Bwrdd Penderfyniadau, cymeradwyaethau a chyfeiriad strategol y Bwrdd.	Allbwn i'r Bwrdd Sicrwydd y pwyllgor, adroddiadau'r Cadeirydd, adrodd ar risg, eithriadau a diweddariadau i'r cynllun gwaith.	Allbwn i'r Bwrdd Uwchgyfeirio trwy eithriad, adroddiadau blynyddol, bylchau sicrwydd a chmau gwellu.

Gwerthuso ac Adolygu Effeithiolrwydd

Mae'r Bwrdd yn adolygu perfformiad ac effeithiolrwydd drwy gylch blynyddol o sicrwydd mewnol ac allanol, hunanasesiad y Pwyllgor, datblygiad y Bwrdd, gwerthusiad ffurfiol ac adrodd blynyddol.

Sicrwydd Allanol a Mewnol i'r Bwrdd

Drwy gydol y flwyddyn, mae asesiadau mewnol ac allanol yn darparu sicrwydd i gefnogi asesiad effeithiolrwydd blynyddol y Bwrdd.

Effeithiolrwydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau

Bob mis Chwefror, mae pob aelod o'r Pwyllgor yn cwblhau holiadur effeithiolrwydd ar-lein, yn seiliedig yn bennaf ar gwestiynau hunanasesu Llawlyfr y Pwyllgor Archwilio (2012) a chanllawiau arferion da'r Swyddfa Archwilio, wedi'u haddasu ar gyfer pob Pwyllgor. Cynhelir gweithdai ym mis Chwefror/Mawrth gydag Aelodau'r Pwyllgor ac Arweinwyr Gweithredol i ystyried themâu cyffredin a dysgu ehangach o ganlyniadau'r arolwg. Rhennir y themâu allweddol gyda phob Pwyllgor ac adroddir arnynt i'r Bwrdd ym mis Mai. Mae dysgu o'r adolygiad effeithiolrwydd yn llywio adolygiad perfformiad y Bwrdd. Adroddir crynodeb o ystyriaethau a chanlyniadau'r Pwyllgor i'r Bwrdd yn chwarter 1 bob blwyddyn fel rhan o adolygiad ehangach effeithiolrwydd y Bwrdd. Ar lefel y Bwrdd, mae rhaglen datblygu'r Bwrdd perfformiad uchel yn cynnwys holiadur perfformiad a sicrwydd llawn bob chwe mis. Ochr yn ochr â Model 7S McKinsey, mae hyn yn nodi arferion rhagorol a meysydd i'w gwella.

Arfarniad y Cadeirydd gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae'r Cadeirydd yn cynnal gwerthusiad blynyddol gyda'r Gweinidog, gan gynnwys gosod amcanion, adolygiad canol blwyddyn ac asesiad diwedd blwyddyn.

Arfarniad y Prif Weithredwr

Mae'r Prif Weithredwr yn cynnal gwerthusiad blynyddol gyda'r Cadeirydd, gan ddilyn yr un cylch gosod amcanion, adolygiad canol blwyddyn a gwerthuso diwedd blwyddyn. Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn cael adolygiad diwedd blwyddyn gyda'r Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru, yn Llywodraeth Cymru, yn gyson â dynodiad y Swyddog Atebol.

Arfarniad y Cyfarwyddwr Anweithredol gyda Chadeirydd y Bwrdd ac arfarniadau'r tîm Gweithredol gyda'r Prif Weithredwr

Mae'r Cadeirydd yn cynnal adolygiad ddwywaith y flwyddyn o berfformiad a datblygiad personol Cyfarwyddwyr Anweithredol, ac mae'r Prif Weithredwr yn gwneud yr un peth gyda'r Tîm Gweithredol. Mae'r ddau broses yn cynnwys gosod amcanion, adolygiad canol blwyddyn ac adolygiad diwedd blwyddyn. Mae'r Cadeirydd hefyd yn cyfarfod yn flynyddol â phob Cyfarwyddwr Gweithredol i drafod eu rôl fel aelod o'r Bwrdd.

Arfarniad Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd

Mae'r Prif Weithredwr a Chadeirydd y Bwrdd yn gwerthuso Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd, gan gynnwys gosod amcanion, adolygiad canol blwyddyn ac adolygiad diwedd blwyddyn.

Hyrwyddwyr y Bwrdd

Mae adroddiad blynyddol Hyrwyddwr y Bwrdd yn rhoi sicrwydd ynghylch cyfraniad ac effaith rolau Hyrwyddwr.

Atodiad 1: Crynodeb o Ddogfennau Cysylltiedig

- [Rheolau Sefydlog](#)
- [Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog](#)
- [Cylch Gorchwyl Pwyllgorau ac Is-grwpiau'r Bwrdd](#)
- [Adroddiadau Blynyddol Pwyllgorau'r Bwrdd](#)
- [Cynlluniau Gwaith y Bwrdd a'i Bwyllgorau](#)
- [Cofrestr Risgiau Strategol](#)
- [Protocol Risg](#)
- [Protocol Archwilio](#)
- [Protocol ar Gyfer Neilltuo Materion i Gyfarfod Preifat o'r Bwrdd \(neu Bwyllgor\)](#)
- [Rheolau'r Bwrdd](#)
- Polisiâu a gweithdrefnau
- Polisi Safonau Ymddygiad
- [Strategaeth Hirdymor](#)
- Agendau ac Adroddiadau y [Bwrdd](#) a'i [Bwyllgorau](#)
- [Adroddiad Blynyddol](#)

Atodiad 2: Map Sicrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgor

Sicrwydd gan y Bwrdd yn unig / Sicrwydd a gedwir gan y Bwrdd				
Maes sicrwydd	Rôl y bwrdd	Llwybr y pwyllgor	Prif ffynonellau sicrwydd	Uwchgyfeirio
Strategaeth a Chyflawni	Gosod cyfeiriad, yn cymeradwyo cynlluniau ac yn dwyn y Sefydliad i gyfrif.	Goruchwyliaeth wedi'i gadw gan y Bwrdd.	Strategaeth Hirdymor, Cynllun Tymor Canolig Integredig, IPR, cynlluniau busnes, diweddariadau rhaglenni a gwireddu buddion.	Uwchraddio drwy: Y Bwrdd, Llywodraeth Cymru neu lwybrau atebolrwydd allanol. Sbardunau: methiant perthnasol i gyflawni, gwyriad strategol, risg sylweddol i gyflawni neu fethiant i gyflawni amcanion.
Trefniadau comisiynu	Yn cadw sicrwydd ynghylch trefniadau comisiynu, atebolrwydd a gwerth am arian.	Sicrwydd dan arweiniad y Bwrdd; cefnogaeth ACGC ar reolaethau, archwilio a llywodraethu.	Adroddiadau comisiynu, canfyddiadau archwilio, Barn Flynyddol, Archwilio Cymru, Protocol Archwilio a thraciwr.	Uwchraddio drwy: Y Bwrdd, Llywodraeth Cymru, Archwilio Cymru neu lwybrau atebolrwydd allanol. Sbardunau: gwendid rheoli comisiynu, pryder gwerth am arian, problem cydymffurfio statudol neu risg atebolrwydd.
Atebolrwydd allanol ac adrodd blynyddol	Yn cymeradwyo adroddiadau llywodraethu ac atebolrwydd blynyddol.	Mae pwyllgorau'n darparu sicrwydd blynyddol ategol.	Datganiad Llywodraethu Blynyddol, Adroddiad Blynyddol, Adroddiad Atebolrwydd, adroddiadau Pwyllgor, barn archwilio a chynlluniau gwaith.	Uwchraddio drwy: Y Bwrdd, Llywodraeth Cymru, Archwilio Cymru neu lwybrau atebolrwydd allanol. Sbardunau: materion datgelu llywodraethu, pryderon ynghylch adrodd blynyddol, risg cymhwyster archwilio neu fethiant i ddangos tystiolaeth o lywodraethu da.

Sicrwydd cymysg gan y Bwrdd a'r Pwyllgor				
Maes sicrwydd	Rôl y bwrdd	Llwybr y pwyllgor	Prif ffynonellau sicrwydd	Uwchgyfeirio
Risg strategol a chorfforaethol	Yn gosod parodrwydd i dderbyn risg ac yn derbyn sicrwydd ar risgiau strategol a chorfforaethol.	Mae pwyllgorau'n craffu ar risgiau a neilltuwyd; mae ACGC yn goruchwyllo trefniadau risg.	Cofrestrau risg, Protocol Risg, cynllun risg, polisïau, adolygiad ACGC, adolygiad o barodrwydd a rheolaethau.	Uwchraddio drwy: Adroddiad y Cadeirydd, adrodd ar risg neu lwybr Llywodraeth Cymru/rheoleiddio. Sbardunau: risgiau y tu allan i barodrwydd, symudiad perthnasol, rheolaethau gwan neu fygythiad sylweddol i amcanion.
Llywodraethu ariannol	Yn derbyn sicrwydd ariannol; yn cymeradwyo cynlluniau a chyfrifon allweddol.	Mae ACGC yn goruchwyllo rheolaethau, cyfrifon ac archwilio.	Adroddiadau cyllid misol, Cynllun Cyfalaf, Strategaeth Cyllideb, Cyfrifon Blynnyddol, adroddiadau archwilio, arbedion a Gwerth am Arian.	Uwchraddio drwy: Adroddiad y Cadeirydd, adroddiadau'r Bwrdd, llwybr risg neu Lywodraeth Cymru. Sbardunau: risg ariannol berthnasol, amrywiant sylweddol, gwendid rheoli, pryder ynghylch gwerth am arian neu risg cynaliadwyedd.
Llywodraethu corfforaethol a rheolaeth fewnol	Yn gosod fframwaith llywodraethu; yn derbyn sicrwydd ar reolaethau.	Mae ACGC yn craffu ar lywodraethu, systemau rheoli, trefniadau risg, DOI a Chylchlythyr Iechyd Cymru.	Rheolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, Cynllun Dirprwyo, Cylch Gorchwyl, Safonau Ymddygiad, adroddiadau, DOI, Cylchlythyr Iechyd Cymru a pholisïau.	Uwchraddio drwy: Adroddiad y Cadeirydd, Datganiad Llywodraethu Blynnyddol, llwybr risg neu lwybr atebolrwydd allanol. Sbardunau: methiant llywodraethu, gwendid rheoli, diffyg cydymffurfio â pholisi, pryder DOI/Cylchlythyr Iechyd Cymru neu risg atebolrwydd.
Trefniadau lletya	Yn cymeradwyo'r cytundeb lletya; yn dirprwyo sicrwydd i Bwyllgorau.	Mae ACGC yn derbyn datganiad blynnyddol; Mae pwyllgorau'n adolygu adroddiadau Perfformiad a Gwella'r GIG yn ôl cylch gwaith.	Cytundeb lletya, amserlen sicrwydd, adroddiadau Perfformiad a Gwella'r GIG, datganiad blynnyddol a sicrwydd cydymffurfiaeth.	Uwchraddio drwy: Adroddiad y Cadeirydd, datganiad blynnyddol ACGC, llwybr risg neu adroddiad eithriad y Bwrdd. Sbardunau: Pryderon sicrwydd Perfformiad a Gwella'r GIG, cydymffurfiaeth lletya, rheolaethau llywodraethu neu risgiau atebolrwydd.
Perfformiad a chyflenwi gwasanaeth	Yn derbyn sicrwydd ynghylch perfformiad, darpariaeth,	Cyflenwi gwasanaethau rhaglenni allweddol a gafodd eu craffu gan	Hawliau Eiddo Deallusol, dangosfyrdau, adroddiadau Pwyllgorau a	Uwchraddio drwy: Adroddiad y Cadeirydd, adrodd ar berfformiad y Bwrdd neu lwybr risg. Sbardunau: tanberfformiad parhaus, llithriad yn y

Atodiad 2 – Map Sicrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau

	ymgysylltiad ac amcanion.	QSIC.	chyfarwyddiaethau, diweddariadau gwasanaeth a chynlluniau adfer.	ddarpariaeth, methiant adferiad cylchol neu effaith berthnasol ar amcanion.
Sicrwydd cymysg y Bwrdd a'r Pwyllgor				
Maes sicrwydd	Rôl y bwrdd	Llwybr y pwyllgor	Prif ffynonellau sicrwydd	Uwchgyfeirio
Dyletswyddau statudol a chydymffurfiaeth	Yn sicrhau cydymffurfiaeth statudol a rheoleiddiol.	QSIC Ansawdd/Gonestrwydd; PODC: Cydraddoldebau; eraill yn ôl cylch gwaith; ACGC: llywodraethu a rheoli systemau.	Ansawdd/Gonestrwydd, Cydraddoldeb, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (DLICD), Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol, y Gymraeg, Asesiad Effaith ar Iechyd ac adroddiadau rheoleiddio.	Uwchraddio drwy: Adroddiad y Cadeirydd, llwybr risg, Llywodraeth Cymru neu lwybr rheoleiddio. Sbardunau: diffyg cydymffurfio statudol, pryder rheoleiddiol, risg cydraddoldeb, amlygiad cyfreithiol, effaith ar enw da neu fethiant i baratoi ar gyfer gweithredu dyletswyddau statudol newydd neu rai sydd ar ddod, gan gynnwys AEI.
Pobl, y gweithlu a diwylliant	Yn gosod disgwyliadau ar gyfer diwylliant, arweinyddiaeth, y gweithlu a datblygu sefydliadol.	Mae PODC yn craffu ar y gweithlu, datblygu sefydliadol, diwylliant, llesiant, arweinyddiaeth a risgiau.	Strategaeth Pobl, y gweithlu, datblygu sefydliadol, diwylliant, arolwg staff, adroddiadau llesiant a risg.	Uwchraddio drwy: Adroddiad y cadeirydd, llwybr risg neu uwchgyfeirio allanol. Sbardunau: risg sylweddol i'r gweithlu, pryder diwylliannol, problem capasiti, risg cydraddoldeb neu effaith ar ddarpariaeth.
Llywodraethu hinsawdd	Yn derbyn sicrwydd ynghylch cyflawniad hinsawdd a chyfrifoldebau statudol.	Mae'r Bwrdd yn derbyn IPR; mae KRIC yn craffu ar ymchwil/data; eraill yn ôl cylch gwaith.	IPR, diweddariadau ar gyflawni hinsawdd, adroddiadau ymchwil/data, risg a sicrwydd statudol.	Uwchraddio drwy: Adroddiad y Cadeirydd, adrodd risg neu Lywodraeth Cymru. Sbardunau: risg sylweddol i gyflawni hinsawdd, pryder statudol, bwlch perfformiad neu effaith ar amcanion strategol.
Effeithiolrwydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau	Adolygu effeithiolrwydd y Bwrdd, y Pwyllgor a llywodraethu.	Mae pwyllgorau'n cwblhau adolygiadau blynyddol ac yn adrodd ar ganlyniadau i'r Bwrdd.	Adroddiadau blynyddol pwyllgorau, adolygiadau effeithiolrwydd, adolygiad y Bwrdd ac allbynnau datblygu.	Uwchraddio drwy: Adolygiad effeithiolrwydd y Bwrdd neu adroddiad y Cadeirydd. Sbardunau: pryderon effeithiolrwydd rheolaidd, camau gwella heb eu datrys neu drefniadau llywodraethu nad ydynt yn gweithredu fel y bwriadwyd.

Atodiad 2 – Map Sicrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau

Sicrwydd pwyllgor yn unig / dirprwyedig				
Maes sicrwydd	Rôl y bwrdd	Llwybr y pwyllgor	Prif ffynonellau sicrwydd	Uwchgyfeirio
Ansawdd, Diogelwch a Gwella	Yn dirprwyo sicrwydd manwl, uwchgyfeirio trwy eithriad yn unig.	Mae QSIC yn cymryd sicrwydd ar ran y Bwrdd.	Ansawdd, Dyletswydd Ansawdd, System Rheoli Ansawdd (QMS), digwyddiadau, pryderon, dysgu ac adroddiadau gwella.	Uwchraddio drwy: Adroddiad y Cadeirydd i'r Bwrdd. Sbardunau: pryderon ansawdd neu ddiogelwch risg uchel, materion dyletswydd statudol, methiant gwella rheolaidd neu risgiau i ganlyniadau.
Llywodraethu clinigol		Mae QSIC yn cymryd sicrwydd ar ran y Bwrdd.	Fframwaith Llywodraethu Clinigol, adroddiadau QSIC, adroddiadau Iechyd a Diogelwch, IPC a diogelu.	Uwchraddio drwy: Adroddiad y Cadeirydd i'r Bwrdd. Sbardunau: pryderon risg uchel, diffyg cyflawni rheolaidd, diffyg cydymffurfio statudol neu wendidau rheoli mewn llywodraethu clinigol, Iechyd a Diogelwch, IPC neu ddiogelu.
Llywodraethu gwybodaeth		Mae ACGC yn cymryd sicrwydd ar ran y Bwrdd.	Adroddiadau Llywodraethu Gwybodaeth chwarterol.	Uwchraddio drwy: Adroddiad y Cadeirydd i'r Bwrdd. Sbardunau: methiant sylweddol i gydymffurfio â llywodraethu gwybodaeth, risg data heb ei reoli, gwendid rheoli rheolaidd neu risg atebolrwydd.
Archwilio a sicrwydd annibynnol		Mae ACGC yn cymryd sicrwydd; cyfeirir canfyddiadau o fewn archwiliadau penodol yn ôl cylch gwaith at Bwyllgorau eraill.	Archwilio mewnol, Barn Flynyddol, Archwilio Cymru, archwilio allanol, Protocol Archwilio, traciwr argymhellion archwilio ac adolygiadau.	Uwchraddio drwy: Adroddiad y Cadeirydd i'r Bwrdd. Sbardunau: canfyddiadau archwilio arwyddocaol, camau gweithredu hwyr rheolaidd, sicrwydd cyfyngedig, argymhellion heb eu datrys neu wendidau rheoli sy'n effeithio ar risg.
Llywodraethu ymchwil		Mae KRIC yn cymryd sicrwydd ar ran y Bwrdd.	Llywodraethu ymchwil, perfformiad IPR, polisïau, Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso.	Uwchraddio drwy: Adroddiad y Cadeirydd i'r Bwrdd. Sbardunau: pryderon perthnasol ynghylch llywodraethu ymchwil, oedi rheolaidd ynghylch strategaeth, methiant i gydymffurfio neu risg i enw da.
Data a digidol		Mae KRIC yn cymryd sicrwydd ar ran y Bwrdd.	Strategaeth Data a Digidol, ansawdd data, sicrwydd digidol, risgiau data ac IPR.	Uwchraddio drwy: Adroddiad y Cadeirydd i'r Bwrdd. Sbardunau: problemau ansawdd data risg uchel, llithriad wrth gyflawni digidol, risg seiber/data neu wendidau rheoli sy'n effeithio ar gyflawni.

Atodiad 2 – Map Sicrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau

Seiberddiogelwch	Mae ACGC yn cymryd sicrwydd ar ran y Bwrdd.	Adroddiadau seiberddiogelwch, risg seiber, rheolyddion diogelwch data, adrodd ar ddigwyddiadau a sicrwydd digidol.	Uwchraddio drwy: Adroddiad y Cadeirydd i'r Bwrdd. Sbardunau: bygythiad seiber risg uchel, digwyddiad arwyddocaol, gwendid rheoli, pryder rheoleiddiol neu risg gwydnwch.
-------------------------	---	--	---



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Gweithio gyda'n gilydd
i greu Cymru iachach

Working together
for a healthier Wales